# Ein Llais Cymraeg

## Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2029

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL




This document is also available in English




## Cynnwys


**1 Rhagair** 3
**2 Croeso** 4
**3 Ein gweledigaeth** 5
**4 Ein targed** 6
**5 Cyd-destun** 7
5.1 Deddfwriaeth 7
5.2 Y cyfrifiad 7
5.3 Cyd-destun polisi 8
**6 Themâu allweddol** 9
6.1 Y Teulu 10
6.2 Y Gweithle 11
6.3 Y Gymuned 12
**7 Monitro cynnydd ac adrodd ar gyflawniadau** 13
**8 Ein partneriaid** 14
**9 Hygyrchedd** 16




# 1 Rhagair


Croeso i Ein Llais Cymraeg, ein Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg newydd. Mae ein Strategaeth yn adeiladu ar ein harferion da blaenorol ac yn eu hymgorffori yn ogystal ag ymgorffori’r hyn rydym wedi ei ddysgu o’r rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog y bu i ni gymryd rhan ynddi. Roedd y rhaglen yn rhoi’r cyfle i arweinwyr sefydliadau i drafod sut y gellir ymgorffori ysbryd ‘Cymraeg 2050’ o fewn eu sefydliadau.

Mae ein Strategaeth wedi cael mewnbwn gan siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg i siapio ein cyfeiriad newydd ac rwy’n hynod o falch o gael cefnogi hyn. Fe hoffem ni i bawb ymuno â ni, waeth faint o Gymraeg rydych yn ei wybod, o le bynnag rydych yn dod a lle bynnag rydych yn byw ar hyn o bryd yn sir Conwy.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar ein taith fel y gallwn gydweithio i hyrwyddo’r Gymraeg yn llwyddiannus yma yng Nghonwy. Amdani!



**Y Cynghorydd Aaron Wynne**




## 2 Croeso

Croeso bawb i'n Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n ddogfen statudol, sy'n ofynnol o dan y gyfraith, ond nid dyma pam rydym yn gwneud hyn. Rydym yn gwneud hyn gan ein bod yn falch o'n diwylliant Cymreig ac yn falch fod Conwy yn Gyngor dwyieithog ac rydym yn angerddol ynglŷn â chefnogi pobl.

Mae cyfrifiad swyddogol 2021 yn dangos bod 25.9% o breswylwyr Conwy yn siarad Cymraeg, mae 51% o'n staff yn siarad rhywfaint o Gymraeg ac rydym yn gwybod am lawer mwy sydd ar y daith i ddysgu Cymraeg, o ddysgu sut i ddweud bore da ac ychydig o eiriau i sgwrsio'n anffurfiol yn y Gymraeg ac wedi hynny gallu sgwrsio yn Gymraeg ym mhob sefyllfa.

Mae'r Gymraeg yn rhan o bwy ydym ni. Ein hiaith ni yw'r Gymraeg ac mae'n perthyn i ni i gyd. Mae'n rhan o'n hanes, ein treftadaeth a'n diwylliant. Mewn cyfnod lle rydym i gyd yn wynebu llawer o heriau, fe all dathlu ac annog ein Llais Cymraeg ddod â ni ynghyd. Fe hoffem ni i bawb ymuno â ni, waeth faint o Gymraeg rydych yn ei wybod, o le bynnag rydych yn dod a lle bynnag rydych yn byw ar hyn o bryd yn sir Conwy.

Nid Strategaeth yn ymwneud â'r Cyngor yn unig yw hon er ein bod, fel cyflogwr mwya'r Sir, yn ceisio gosod esiampl o faint o Gymraeg a ddefnyddir yn y gweithle a sut rydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae hyrwyddo'r Gymraeg hefyd yn ymwneud â'r teulu, y gymuned, ysgolion, busnesau, twristiaeth ac yn fwy na dim mae'n ymwneud â phobl. Rhywbeth sy'n perthyn i bobl yw iaith a nod y cynllun hwn yw cefnogi pobl i feithrin dealltwriaeth, ewyllys da a gobeithio cariad tuag at y Gymraeg a'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Conwy.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ydych chi'n un o filiwn? Os ydych yn siaradwr Cymraeg sy'n gallu sgwrsio yn Gymraeg ym mhob sefyllfa rydym eich angen chi hefyd, i gefnogi eraill ac i helpu i greu'r cyfleoedd lle gall y Gymraeg ffynnu. Yn ogystal â chynyddu'r nifer o bobl sy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg, rydym eisiau i fwy o bobl siarad Cymraeg bob dydd. Rydym yn cefnogi hyn drwy gydweithio gyda phartneriaid lleol fel Menter Iaith Conwy, Urdd Conwy, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Coleg Llandrillo a Rhieni dros Addysg Gymraeg. Yn ogystal â chynllunwyr, addysgwyr a Chynghorwyr maent yn rhan o Fforwm Strategol y Gymraeg sydd wedi cynorthwyo i lunio'r Strategaeth hon a byddant yn ei chefnogi wrth symud ymlaen.

Mae'r her sydd o'n blaenau yn un gyffrous a thrwy osod gweledigaeth gref, rydym yn hyderus y byddwn yn gallu cydweithio i hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus yma yng Nghonwy. Amdani!

Llyfrgell
Library




## 3 Ein gweledigaeth

Conwy ddwyieithog lle mae pobl yn hyderus ac yn falch o'u llais Cymraeg, lle caiff Cymraeg ei siarad o fewn y teulu, y gymuned a'r gweithle a lle caiff diwylliant Cymreig ei ddathlu a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn.

# 4 Ein targed

## Cynyddu’r nifer o siaradwyr Cymraeg o 1,600 erbyn 2029.

Ein nod wrth osod y targed hwn yw i ddod â nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy yn ôl i 27.4% o’r boblogaeth, gan gyd-fynd â ffigwr y cyfrifiad yn 2011. Roedd cyfrifiad 2021 yn dangos ychydig o ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg i 25.9%, ond rydym ni’n credu bod yna fwy o siaradwyr Cymraeg. Rhan o’n cynllun yw i annog a chefnogi pobl i ddod o hyd i’w llais Cymraeg a defnyddio’r Gymraeg sydd ganddynt - waeth beth fo lefel y Gymraeg maent yn ei wybod yn eu tyb nhw. Bydd hyn yn ein paratoi ar gyfer targed uchelgeisiol o 30% o breswylwyr Conwy yn siarad Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth nesaf yn 2034.






# 5 Cyd-destun

## 5.1 Deddfwriaeth

Mae **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Fe sefydlodd ddwy egwyddor allweddol sy'n effeithio ar bob agwedd o fywyd cyhoeddus:

- Na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon yn sail i **Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi Strategaeth bum mlynedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Rhaid i'r Strategaeth gynnwys, ymysg elfennau eraill:

- Targed ar gyfer cynyddu neu gynnal y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod pum mlynedd; a
- Datganiad yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.

Roedd ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg gyntaf yn ymdrin â'r cyfnod o 2017-22. Ar ddiwedd pob cyfnod o bum mlynedd rydym yn adolygu ein cynnydd, yn dathlu ein llwyddiant ac yn ailosod ein cynllun fel y gallwn barhau gyda'n huchelgais. Mae ein hasesiad o'r Strategaeth flaenorol ar gael ar ein gwefan yma **Safonau'r Gymraeg - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**.

## 5.2 Y cyfrifiad

Yn ôl Cyfrifiad 2021, fe all 19% o boblogaeth Cymru siarad Cymraeg. Yng Nghonwy, gall 25.9% o'r boblogaeth, neu 29,000 o bobl siarad Cymraeg. Er bod gan Gonwy y bumed ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, mae'r ffigwr hwn 1.5% yn is o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2011. Yn 2011 gallai 27.4% o'r boblogaeth (30,600 o bobl) siarad Cymraeg. Mae targed ein Strategaeth o 1,600 yn fwy o siaradwyr Cymraeg erbyn 2028 yn seiliedig ar ddychwelyd i'r lefel hon, gyda'r nod o gynyddu i 30% dros y pum mlynedd nesaf.

| | Oedran | 3-4 | 5-15 | 16-19 | 20-44 | 45-64 | 65-74 | 75+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011 | Nifer | 740 | 6540 | 1950 | 8420 | 6700 | 2940 | 3310 | 30600 |
| | % | 31.7 | 49.2 | 37.3 | 27.8 | 20.7 | 21 | 23.3 | 27.4 |
| 2021 | Nifer | 490 | 5850 | 1800 | 7940 | 6840 | 2940 | 3140 | 29000 |
| | % | 23.2 | 43.8 | 41.8 | 28.1 | 21.1 | 18 | 20.9 | 25.9 |

*Tabl 1: Y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy fesul oedran 2011-2021*

## 5.3 Cyd-destun polisi

Nid yw'r Strategaeth hon yn bodoli ar ei phen ei hun. Mae gennym ni hanes hir o ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd i'n preswylwyr ac mae'r Gymraeg yn nodwedd amlwg o'n cynlluniau a'n polisïau. Isod mae'r cynlluniau a'r polisïau lleol allweddol sy'n gorwedd ochr yn ochr â'r Strategaeth hon i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg, ynghyd â'r cyd-destun cenedlaethol.

**Cymraeg 2050** - Gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol erbyn 2050.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** - Un o'r saith nod lles yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

**Mwy na Geiriau 2022-2027** - Y fframwaith strategol cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol fel gall pobl gael y gofal maent yn ei haeddu a'i angen.

**Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2022-2027** - Amcan y Cynllun yw bod "pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg".

**Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg Conwy 2022-2032** - Cynllun strategol sy'n dangos sut rydym yn bwriadu datblygu a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn ysgolion Conwy, fel bod gan yr holl ddisgyblion y cyfle i ddod yn hyderus yn ddwyieithog.

**Canllawiau Cynllunio Atodol CDLl6: Y Gymraeg** - Canllaw yn ymwneud â sut rydym yn asesu effaith datblygiadau ar y Gymraeg. Bydd y canllaw yn cael ei ddiweddaru yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd rydym yn gweithio arno ar hyn o bryd.






# 6 Themâu allweddol

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb, waeth beth fo lefel eu gallu i siarad yr iaith. Rydym eisiau i bawb yng Nghonwy gofleidio'r Gymraeg yn llwyr a defnyddio eu llais Cymraeg. Mae yna lawer o gyfleoedd i bobl ddysgu neu wella eu Cymraeg yng Nghonwy a rhan bwysig o'r daith honno fydd gwrando ar bobl yn siarad Cymraeg yn aml, bob dydd.

Mae'r Strategaeth hon yn rhan bwysig o helpu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg drwy Gonwy ac mae ganddi dair thema: hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Teulu, y Gweithle a'r Gymuned. Ar gyfer pob thema rydym yn egluro:

- Ein nod
- Ein hamcanion
- Sut fyddwn ni'n mesur ein cynnydd?

Yn ystod 2023 a 2024 roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhan o raglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog ac mae'r Strategaeth hon yn ymgorffori egwyddorion y rhaglen.

Bydd cynllun gweithredu blynyddol manwl yn nodi sut byddwn yn bodloni ein hamcanion yn cael ei gyhoeddi a'i adrodd yn Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro a'i adolygu gan Fforwm Strategol y Gymraeg a'r Grŵp Strategol Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog.




## 6.1 Y Teulu

**Ein nod:**

Rydym eisiau sicrhau bod rhieni'n cael eu cefnogi i drosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r nesaf, ac os nad ydynt yn siarad Cymraeg eu bod yn cael eu cefnogi i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant. Rydym eisiau darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu Cymraeg yn ein hysgolion, yn eu gweithgareddau a gartref, ac i siarad Cymraeg mewn bywyd bob dydd y tu allan i'r ysgol.

**Ein hamcanion:**

- Bod teuluoedd yn cael y gefnogaeth a'r sicrwydd maent ei angen i ddewis addysg Gymraeg ar gyfer eu plant
- Bod teuluoedd yn cael y gefnogaeth i gychwyn eu plant (a nhw eu hunain) ar daith ddwyieithog
- Mwy o blant meithrin a chynradd yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant yn parhau â'u haddysg Gymraeg i'r ysgol uwchradd
- Mwy o ddysgwyr yn cymryd eu TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg
- Y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn bywyd bob dydd yn yr ysgolion a gweithgareddau ar ôl ysgol
- Plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi i ddysgu Cymraeg a bod ganddynt fynediad at addysg Gymraeg
- Athrawon yn cael eu cefnogi i ddysgu neu i gynyddu eu hyder yn y Gymraeg fel eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dysgu yn y Gymraeg.

**Sut fyddwn ni'n mesur ein cynnydd?**

- Byddwn yn cynnal arolwg blynyddol i ddeall a yw rhieni'n teimlo'u bod yn cael eu cefnogi ac a yw'r plant yn teimlo bod ganddynt y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd
- Nifer y dysgwyr sy'n astudio eu TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg
- Nifer y dysgwyr sy'n astudio eu Lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg
- Nifer y dysgwyr ysgol gynradd sy'n derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg
- Nifer y dysgwyr ysgol uwchradd sy'n derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg.

## 6.2 Y Gweithle

**Ein nod:**
Ni yw'r cyflogwr mwyaf yn y sir ac rydym eisiau arwain drwy esiampl a dangos sut y gall sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Fe hoffem ni i bawb ymuno â ni, waeth faint o Gymraeg rydych yn ei wybod, o le bynnag rydych yn dod a lle bynnag rydych yn byw ar hyn o bryd yn sir Conwy.

**Ein hamcanion:**
- Byddwn yn cefnogi holl staff Conwy i fod â Chymraeg ar lefel cwrteisi - ynganu enwau lleoedd a chyfarchion sylfaenol
- Byddwn yn cynyddu faint o Gymraeg a gaiff ei siarad yn y gweithle
- Byddwn yn cynyddu'r defnydd o eiriau Cymraeg wrth i ni gyfathrebu'n Saesneg er mwyn helpu pobl i ddysgu Cymraeg
- Byddwn yn cefnogi staff gyda'u hyder i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle
- Byddwn yn hyrwyddo cyrsiau dysgu Cymraeg a ffyrdd eraill o ddysgu Cymraeg
- Byddwn yn sicrhau bod staff yn gallu defnyddio eu Cymraeg - fel cael mynediad at adroddiadau Cymraeg a phan fo hynny'n ymarferol cynnig cyfieithu ar y pryd i alluogi i fwy o Gymraeg gael ei siarad mewn cyfarfodydd
- Byddwn yn annog staff i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle waeth beth fo'u lefel drwy sicrhau bod staff yn edrych ar y cortynnau gwddf Cymraeg a Dysgu Cymraeg yn rheolaidd.

**Sut fyddwn ni'n mesur ein cynnydd?**
- Nifer y staff a all siarad Cymraeg
- Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg
- Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg drwy ein cynllun Cymraeg Gwaith
- Nifer y staff a fynychodd gwrs Hybu Hyder neu Gloywi Iaith
- Nifer y staff sy'n symud o Lefel 0 i Lefel 1 ar ôl mynychu cwrs Blasu Cymraeg ar-lein.






## 6.3 Y Gymuned

**Ein nod:**

Rydym yn falch o'n diwylliant Cymreig ac yn falch bod Conwy yn Gyngor dwyieithog. Rydym yn angerddol ynglŷn â chefnogi ac annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg drwy ein deunydd cyfathrebu. Rydym eisiau hyrwyddo a dathlu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau waeth beth fo lefel y Gymraeg sydd gan unigolyn. Rydym eisiau annog cymunedau i ymuno â ni ar y daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dod yn un o filiwn.

**Ein hamcanion:**

- Annog busnesau i ddefnyddio Cymraeg lefel cwrteisi
- Annog busnesau i ddefnyddio **Helo Blod** - gwasanaeth cyfieithu a chyngor Cymraeg/Saesneg cyflym a chyfeillgar rhad ac am ddim ar gyfer busnesau ac elusennau
- Annog busnesau i ddefnyddio 'Defnyddio'r Gymraeg yn eich busnes - Pecyn Gwaith Twristiaeth'. Pecyn gwaith wedi ei lunio gan y Cyngor mewn partneriaeth â Menter Iaith Conwy, wedi ei lenwi â gwybodaeth ynglŷn â'r Gymraeg yn Sir Conwy, ac awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich busnes
- Annog sefydliadau eraill i hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel cwrteisi a chynnwys ymadroddion allweddol ar eu gwefannau
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg drwy addysg cyfrwng Cymraeg, digwyddiadau cymdeithasol a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Conwy
- Bydd ein prosesau cynllunio yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cefnogi'r Gymraeg i ffynnu drwy gynnal cydbwysedd ieithyddol yn ein cymunedau.

**Sut fyddwn ni'n mesur ein cynnydd?**

- Nifer y busnesau sydd wedi defnyddio 'Defnyddio'r Gymraeg yn eich busnes - Pecyn Gwaith Twristiaeth'
- Nifer yr ysgolion cynradd sy'n aelodau o'r Urdd
- Nifer yr ysgolion cynradd sydd wedi manteisio ar ddarpariaeth Menter Iaith Conwy i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir
- Nifer yr ysgolion sydd wedi cael gwobrau Aur, Arian ac Efydd fel rhan o'r Siarter Iaith/Cymraeg Campus
- Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd yn y Gymraeg yn y sir
- Nifer y plant a gymrodd ran yn Sialens Ddarllen yr Haf
- Nifer y deunyddiau Cymraeg a fenthycwyd gan y llyfrgell
- Nifer y bobl sydd wedi cymryd rhan yn y Cynllun Darllen yn Well
- Nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy yn ôl y cyfrifiad.

# 7 Monitro cynnydd ac adrodd ar gyflawniadau

Byddwn yn monitro ein cynnydd o ran bodloni ein hamcanion yn barhaus. Bydd hyn yn cael ei adrodd, ei gefnogi a'i herio yn Fforwm Strategol y Gymraeg a'r Grŵp Strategol Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog.

Bydd adroddiad blynyddol yn ymwneud â chynnydd Ein Llais Cymraeg yn cael ei gyflwyno i Aelodau Etholedig. Bydd copïau o'r adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn ar ein gwefan.



# 8 Ein partneriaid

Mae llwyddiant ein Strategaeth yn dibynnu ar weithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda sefydliadau amrywiol ar hyd a lled y sir. Mae'r adran isod yn rhoi manylion ynglŷn â'n partneriaid allweddol a'r rôl fydd ganddynt o ran ein helpu ni i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Strategaeth hon. Byddwn yn parhau i gynyddu'r nifer o bartneriaid rydym yn gweithio gyda nhw yn ystod cyfnod y Strategaeth hon.

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg yn 2011 yn dilyn penderfyniad polisi Llywodraeth Cymru i greu sefydliad cenedlaethol i gynllunio a chydlynu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion, gan weithredu ar sail yr egwyddor bod modd trin a thrafod unrhyw ddisgyblaeth academaidd neu alwedigaethol yn y Gymraeg. Mae'r Coleg Cymraeg yn gweithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, sefydliadau sy'n cynnig prentisiaethau, a chyflogwyr i greu cyfleoedd i hyfforddi ac astudio yn Gymraeg. Nod y Coleg yw creu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog.

**Cymraeg i Blant**

Caiff Cymraeg i Blant ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gydlynu gan Mudiad Meithrin. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gynyddu'r nifer o blant oed meithrin sy'n gallu siarad Cymraeg. Maent yn rhannu gwybodaeth, yn rhoi cyngor ac yn cynnig cefnogaeth i rieni yn nhermau manteision dwyieithrwydd, y pwysigrwydd o gyflwyno Cymraeg i Blant cyn gynted â phosibl a manteision addysg Gymraeg. Mae dau swyddog Cymraeg i Blant yn gweithio yng Nghonwy ac maent yn cynnig grwpiau babanod amrywiol i rieni a darpar rieni ar hyd a lled y sir.

**Grŵp Llandrillo Menai**

Mae Grŵp Llandrillo Menai (Y Grŵp) yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn i ddysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau uchelgeisiol a fydd yn meithrin amgylchedd a fydd yn hyrwyddo'r defnydd a thwf y Gymraeg ymhlith dysgwyr, staff a budd-ddeiliaid allweddol.

**Menter Iaith Conwy**

Nod Menter Iaith Conwy yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl o bob oed a chefndir i ddefnyddio neu ddysgu Cymraeg yn eu cymunedau lleol, yn y gwaith neu wrth dderbyn hyfforddiant. Mae gan Fenter Iaith Conwy nifer o brosiectau ar hyd a lled sir Conwy sy'n helpu cymunedau i gysylltu gyda'r Gymraeg.

**Mudiad Meithrin**

Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr yn nhermau gofal ac addysg yn y blynyddoedd cynnar yn y sector gwirfoddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Y nod yw i roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i fanteisio ar ofal a phrofiadau addysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)

Mae RhAG yn ymwneud erioed â chefnogi rhieni a gwarcheidwaid ar eu taith gyda'u plant drwy Addysg Cyfrwng Cymraeg a thu hwnt. Mae'r cyfnod yn cychwyn cyn geni'r plentyn, gyda gwaith hyrwyddo o fewn y sector cyn geni a blynyddoedd cynnar, ac rydym yn gweithio'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol gyda budd-ddeiliaid i sicrhau y gall pawb sy'n dymuno hynny gael Addysg Cyfrwng Cymraeg.

## Urdd

Mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc o 8 i 25 oed yw'r Urdd. Yng Nghonwy mae'r Urdd yn gweithio'n agos gyda'n holl ysgolion ym mhob categori ieithyddol, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion drwy gydol y flwyddyn. Caiff gweithgareddau'r Urdd eu cynnal yn y Gymraeg, ond hefyd mae ganddynt sesiynau dwyieithog ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Mae'r Urdd yn trefnu Eisteddfod flynyddol a hefyd yn trefnu gweithgareddau preswyl a chwaraeon ar gyfer pobl ifanc.

## Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ganolfan yn cynnig cyrsiau Cymraeg i bobl yn ystod y dydd a gyda'r hwyr ar wahanol lefelau rhugldер, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Gloywi. Mae'r cyrsiau yma ar gael dan arweiniad tiwtor ar-lein a wyneb-yn-wyneb neu mae modd dilyn cyrsiau hunan-astudio hefyd. Mae'r Ganolfan yn cynnal cynllun 'Cymraeg Gwaith' sy'n darparu cyrsiau wedi'u hariannu llawn neu'n rannol, mewn gweithleoedd ac mae Cyngor Conwy yn rhan o'r cynllun yma. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnal cynlluniau eraill gan gynnwys 'Cymraeg yn y Cartref', 'Croeso i Bawb', a 'Cymraeg Pobl Ifanc' a darpariaeth ar gyfer y gweithlu Addysg.




# 9 Hygyrchedd

Gallwch ddod o hyd i gopi o Ein Llais Cymraeg yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein gwefan.

Gallwch hefyd weld Ein Llais Cymraeg ar ein cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus am ddim sydd yn holl lyfrgelloedd y Cyngor ac yn nerbynfeydd Bodlondeb a Choed Pella.

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy anfon e-bost atom ni i'r cyfeiriad hwn **cymraeg@conwy.gov.uk** neu drwy ffonio **01492 574000**.

Mae fersiwn Iaith Arwyddion Prydain o Ein Llais Cymraeg ar gael ar ein gwefan.